**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 19 Hydref 2023 am 3.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd J Smith
Y Cynghorydd R Williams
Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd L A Tomkinson

**Roedd y Aelodau Pwyllgor Cynllunio a Datblygu canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd A Dennis
Y Cynghorydd D Grehan

**Swyddogion oedd yn bresennol: -**

Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr G Howard, Senior Planning Officer

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris

## 108 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Bonetto, W Lewis ac M Powell.

## 109 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r agenda.

## 110 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## 111 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

## 112 COFNODION 07.09.23

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 07.09.23 yn rhai cywir.

## 113 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

## 114 CAIS RHIF: 23/0575

**Diwygio amod 1 o gais 18/0617/15 i ychwanegu 5 mlynedd arall at y caniatâd presennol (cais gwreiddiol: 13/0758/10 – Datblygiad preswyl, adeiladu 3 uned dai gysylltiedig â 3 ystafell wely). TIR GER 15 STRYD GROVER, GRAIG, PONTYPRIDD, CF37 1LD**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr S Courtney (Asiant). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelodau Lleol nad yw'n aelodau o'r Pwyllgor, Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Brencher a T Leyshon, am y cais gan fynegi eu pryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

**(Noder:** Ar yr adeg yma yn y cyfarfod, datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Tomkinson fuddiant personol yn y cais yma: "Rydw i'n Gynghorydd ar Gyngor Tref Pontypridd, sy'n cael ei grybwyll yn yr adroddiad."

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, ar amod diwygio'r amodau canlynol:

Amod 1 – Diwygio'r amod fel bod gwaith y datblygiad sy'n cael ei ganiatáu yn cychwyn cyn pen dwy flynedd o ddyddiad y caniatâd;

Amod 3 – Newid amseroedd y gwaith ym mhwynt bwled un i'r canlynol:-

- Dydd Llun i ddydd Gwener, 09:00 i 18:00;

Amod 7 – Ychwanegu gofyniad ychwanegol at yr amod i roi gwybod i drigolion am y cynllun rheoli adeiladu.

**115 CAIS RHIF: 23/0896**

**Dymchwel estyniadau presennol i gefn ac ochr yr adeilad, adeiladu estyniad deulawr i ochr yr adeilad ac estyniad llawr cyntaf. Mae hefyd yn cynnwys newid strwythur yr eiddo presennol a chynnal gwaith adnewyddu cyffredinol (Derbyniwyd cynllun lleoliad safle diwygiedig ar 13/09/2023) BYNGALO CARTREF, LÔN HOBBS, HIRWAUN, ABERDÂR, CF44 9BU**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais i'r Pwyllgor ynghyd ag argymhelliad i ohirio'r cais er mwyn caniatáu rhagor o drafod rhwng yr ymgeiswyr a swyddogion mewn perthynas ag edrychiad blaen y datblygiad arfaethedig. Ar ôl ystyried y cais i ohirio, **PENDERFYNWYD** gohirio penderfynu ar y cais tan un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol er mwyn caniatáu rhagor o drafod rhwng yr ymgeiswyr a swyddogion mewn perthynas â dyluniad y datblygiad arfaethedig.

-

**116 CAIS RHIF: 23/0712**

**Cynnig i newid defnydd yr eiddo i Gartref Preswyl i Blant. 142 STRYD KENRY, TONYPANDY, CF40 1DD**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau wrthod y cais uchod, yn groes i argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn am fod yr Aelodau o'r farn bod lleoliad y datblygiad arfaethedig yn anaddas, fod dim digon o le i barcio, fod yr eiddo ddim yn addas ar gyfer y defnydd arfaethedig a bod diffyg gofod ar gyfer amwynder i breswylwyr.

O ganlyniad i hynny, cai'r mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â dod i benderfyniad yn groes i argymhelliad Swyddog, neu unrhyw reswm dros ddod i benderfyniad o'r fath ar sail cynllun arfaethedig neu gynllun posibl.

**117 CAIS RHIF: 23/0871**

**Cais cynllunio amlinellol ar gyfer siop bwyd a diod ategol arfaethedig hyd at 140 metr sgwâr (pob mater wedi'i gadw ac eithrio mynediad). Derbyniwyd cynllun lleoliad safle diwygiedig ar 13 Medi 2023 (i symud yr ardal mae modd ei datblygu o'r parth glo risg uchel). BWYTY KENTUCKY FRIED CHICKEN, HEOL Y CYMER, DINAS, PORTH, CF39 9BL**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

-

**118 CAIS RHIF: 23/0576**

**Newid defnydd ac estyniad er mwyn darparu 7 fflat newydd a chadw uned breswyl bresennol ar yr ail lawr a gwelliannau i fannau masnachol. 22-22A STRYD CAERDYDD, ABERDÂR, CF44 7DP**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 7 Medi 2023, er mwyn caniatáu trafodaeth bellach gyda'r ymgeisydd gyda'r bwriad o ddatrys pryderon yr Aelodau mewn perthynas â'r cynnig gwreiddiol – yn benodol, nifer yr ystafelloedd arfaethedig ac ansawdd y llety.

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad pellach, ac yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn ddarostyngedig i'r amodau diwygiedig sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad diweddaraf.

**119 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 25/09/2023 – 06/10/2023.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**